

## Cau'r Capel Dros Dro

Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith o atgyweirio'r capel yn dechrau'n fuan wedi 14 Medi, ac yn dod i ben cyn diwedd y flwyddyn. Yn y cyfamser byddwn yn cynnal ein gwasanaethau yn Neuadd y Pentref gan ddechrau fore Sul, 20 Medi. O safbwynt yr Ysgol Sul, rydym am greu llwybr diogel i'r plant fynd heibio ochr y capel i'r Ganolfan, fel bod modd iddi fwrw ymlaen yn ddirwystr. Efallai na fydd hyn yn bosib am y cyfnod llawn, ac os felly bydd raid i ni ddatrys y broblem os digwydd hynny. Gobeithiwn hefyd y bydd y Ganolfan ar gael i'r defnyddwyr rheolaidd yn ystod yr wythnos, ond eto gall problemau godi nad oes modd eu rhagweld ar hyn o bryd. Bydd yr wythnosau nesaf yn gofyn am lawer iawn o amynedd, ewyllys da a chydweithio cadarnhaol. Hyderwn y bydd y cylchlythyr hwn yn helpu pawb i ddeall yn well yr holl drefniadau a roddwyd mewn lle dros gyfnod y gwaith adeiladu.

### Diwedd y Gân...

#### COST Y GWAITH

Soniwyd yn gynharach yn y flwyddyn y byddai'r gost o atgyweirio'r capel tua £200,000. Erbyn hyn rydym wedi ystyried y tendrau a ddaeth i law, ac wedi dewis adeiladydd i wneud y gwaith. Mae'r amcangyfrif gwreiddiol yn weddol agos i'w le, ond wrth ychwanegu elfennau eraill megis Treth ar Werth, mae'r cyfanswm yn nes at £215,000. Rydym eisoes wedi clustnodi £150,000 o goffrau'r Eglwys, ac mae'r gynulleidfa Saesneg ei hiaith wedi addo cyfrannu £20,000. Yn ogystal, rydym yn ffyddiog y cawn fenthyciad di-log o £15,000 gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Bydd hyn yn gadael bwlch o £30,000, a bellach dyma'r swm yr ydym yn anelu i'w godi ymhlith yr aelodau. Bwriadwn hefyd wneud cais am grant o Gronfa Degwm yr a w d u r d o d l l e o l a c Ymddiriedolaeth Pantyfedwen.

#### Drosodd

- Amserlen yr Wythnosau Nesaf
- Help Llaw
- Y Daflen a'r Sgriniau
- Ar Werth
- Banc Bwyd a'r Casgliad Dillad
- Gair o Ddiolch

#### YR APÊL ARIANNOL

Fe gofiwch i ni anfon llythyr at yr holl aelodau ar ddechrau gwyliau'r haf yn apelio am gyfraniadau tuag at gost y gwaith o atgyweirio'r capel. Rydym yn deall gan Gwilym (yr Ysgrifennydd) a Keith (y Trysorydd) eu bod wedi eu plesio'n fawr gan haelioni'r rhai sydd eisoes wedi cyfrannu at yr apêl, ond mae llawer ohonoch sydd heb ymateb mor belled. Gofynnir yn garedig i bawb arall sydd yn awyddus i gyfrannu i wneud hynny **erbyn 27 Medi fan bellaf**. Cofiwch fod modd i chi ddewis un o ddwy ffordd o gyfrannu at gost y gwaith. Naill ai gallwch gyflwyno sic i Keith neu Gwilym, neu gyfrannu'n fisol drwy archeb banc. Os yw'n fwy cyfleus, mae croeso i chi anfon cyfraniad drwy'r post at: Gwilym Huws, Tal-y-fan, 9 Sovereign Gardens, Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun CF72 8SZ. Cofiwch hefyd arwyddo'r ffurflen a anfonwyd atoch gyda'r llythyr gan y bydd hynny'n ein galluogi i dderbyn Cymorth Rhodd ar eich cyfraniad.

**DS Os ydych yn methu dod o hyd i'r ffurflen, gofynnwch i Gwilym am gopi arall.**

#### BRASLUN O'R GWAITH ATGYWEIRIO

Mae'r gwaith yn cynnwys y canlynol:

#### TU ALLAN

- glanhau to'r capel
- trwsio'r waliau
- ail blastro a pheintio
- trwsio'r wal rhwng y ffordd fawr a'r llwybr i'r Ganolfan

#### TU MEWN

- adnewyddu'r chwareli unigol yn y ffenestri fel bo angen
- atgyweirio'r nenfwd
- ail blastro'r waliau
- gosod system wresogi newydd
- tynnu'r seddi presennol allan a gosod seddi unigol yn eu lle
- unioni'r llawr lle mae'r ddwy ale bresennol rhwng y seddi
- carpedu'r llawr
- creu mynediad i'r anabl newid y canllaw sydd o amgylch y galeri
- peintio'r waliau, y drysau ac ochr y galeri mewn lliwiau ysgafn, chwaethus gosod system sain newydd

# Galw am Help Llaw

Rydym wedi llogi ystorfa bwrpasol i gadw eiddo'r capel yn ystod cyfnod yr adeiladu, sef pethau fel llyfrau, cadeiriau, byrddau a manion eraill y mae angen eu diogelu. Mae angen criw o wirfoddolwyr i symud y rhain yn ystod yr wythnos 14-19 Medi, felly os ydych chi ar gael tybed a fyddech cystal â rhoi gwybod i Gwilym eich bod yn fodlon helpu yn ystod y dydd neu fin nos. Cysylltwch drwy ffonio Gwilym ar 01443 225205 / 07856 270173 neu e-bostio [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)

Gyda llaw y bwriad yw adeiladu blychau pwrpasol o gwmpas yr organ a'r piano i'w gwarchod a'u diogelu yn eu lle.

## Ar Werth: Goleuadau a Seddi

Byddwn yn adnewyddu'r goleuadau i gyd, ac rydym yn cynnig i unrhyw aelod brynu faint fynir o'r lampau presennol. Hefyd, os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn prynu rhywfaint o seddi'r llawr gwaelod rhwch wybod i ni. Ond gwnewch hynny'n fuan, cyn iddyn nhw gael eu cynnig i gwmni sy'n delio mewn hen gelfi. Mynnwch air gyda Gwilym.

## Y Daflen a'r Sgriniau

Ni fyddwn yn defnyddio'r sgriniau yn y cyfnod dan sylw am resymau amlwg.

Rydym hefyd wedi penderfynu peidio cario Beiblau a chopïau o *Caneuon Ffydd* yn ôl ac ymlaen i'r Neuadd bob Sul, felly byddwn yn gofyn i'r sawl sy'n paratoi'r daflen gynnwys geiriau'r emynau a genir yn y daflen ar gyfer y Sul hwnnw.

Hefyd byddwn yn gofyn i'r rhai sy'n arwain y gwasanaethau i beidio cynllunio cyd-ddarllen o'r Beibl, ond yn hytrach i gael un person yn darllen.

## AMSERLEN YR WYTHNOSAU NESAF

### 13 Medi

Y Gwasanaeth bore Sul olaf am y tro yn y Tabernacl.

### 14-19 Medi

Bydd angen criw o wirfoddolwyr i gynorthwyo i symud celfi a llyfrau i'w storio dros-dro (*gweler Colofn 1 a 2 am ragor o fanylion*).

### 20 Medi

Y gwasanaeth cyntaf i'w gynnal yn Neuadd y Pentref.

### 21 Medi

Capel yn rhydd i'r adeiladwyr ddechrau ar eu gwaith.

### 27 Medi

Dyddiad olaf derbyn cyfraniadau gan aelodau at Apêl yr Adeiladu.

### Rhagfyr

Y gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau.

## GAIR O DDIOLCH

Llawer iawn o ddiolch i bawb sydd eisoes wedi cyfrannu'n ariannol, neu'n bwriadu gwneud hynny. Hyderwn y bydd y capel ar ei newydd wedd yn adeilad y medrwn i gyd ymfalchïo ynddo, a bydd yn sylfaen dda i ni fel eglwys i weithredu yn y gymuned. Rydym yn gobeithio y bydd y buddsoddiad hwn gennym ni yn awr yn golygu osgoi gosod baich ariannol ar ysgwyddau'r genhedlaeth nesaf, ac y byddan nhw'n gwneud defnydd teilwng o'r lle i roi dysgeidiaeth lesu Grist ar waith mewn modd ymarferol.

Diolch i bawb a fu ynghlwm wrth y gwaith o wireddu'r prosiect hwn, yn enwedig felly Helen Middleton ac Emlyn Penny Jones.